DISGRIFIAD SWYDDOGAETH

CYNGHORYDD Y FWRDEISTREF SIROL J. ROSSER

Mae'r Disgrifiad Swyddogaeth yma'n berthnasol i'ch swyddogaeth yn:

- Aelod Etholedig
- Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
    - Addysg Uwchradd, Gynradd, Feithrin, Gymraeg, Ddwy Iaith, ac Anghenion Arbennig
    - **Hyrwyddwr Materion Pobl Ifainc**
    - Safonau a Chyrhaeddiad Addysgol
    - Ysgolion yr 21ain Ganrif
    - Cyswllt ag Addysg Bellach ac Uwch
    - Ysgolion a'r Gymuned
    - Dysgu, Mynediad, Ymgysylltu a Chynhwysiant
    - Cymorth i Lywodraethwyr
    - Addysg heblaw yn yr ysgol
    - Addysg i Oedolion
    - Addysg y Blynyddoedd Cynnar, gan gynnwys Dechrau'n Deg
    - Gofal plant

- Aelod sy'n cynrychioli'r Adain Weithredol ar y canlynol, neu sydd wedi'i benodi iddyn nhw:
    - Cabinet
    - Cadeirydd Fforwm Cyllideb Ysgolion (Swyddogaeth yr Adain Weithredol)
    - Bwrdd Rhianta Corfforaethol (Swyddogaeth yr Adain Weithredol)
    - Pwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd, Consortiwm Canolbarth y De
    - Is-gadeirydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg (Swyddogaeth yr Adain Weithredol)
    - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Swyddogaeth yr Adain Weithredol)
    - Pwyllgor Strategol – Diwylliant a Chelf (Swyddogaeth yr Adain Weithredol)
    - Grŵp Llywio Cymdeithas Gefeillio Rhondda Cynon Taf
    - Pwyllgor Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion

- Aelod sydd wedi'i benodi i'r Cyrff Allanol yma:-

    - Bwrdd Llywodraethwyr – Coleg y Cymoedd
    - Ymddiriedolaeth Judges Hall
- Cadeirydd Pwyllgor Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol
- Cyfranogwr mewn rhaglen Datblygu Aelodau briodol

EICH SWYDDOGAETH YN AELOD ETHOLEDIG

Yn atebol:

- I'r Cyngor llawn
- I'r Etholwyr

Diben a Gweithgaredd y Swyddogaeth:

Cynrychioli a rhoi cymorth i'ch etholwyr a'ch cymunedau:

- Cynrychioli buddiannau eich Adran Etholiadol.
- Hyrwyddo'r Cyngor yn eich Adran Etholiadol a'r cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu.
- Bod yn ddolen gyswllt ac yn gyfrwng cyfathrebu i'r gymuned ar strategaethau, polisïau, gwasanaethau, a gweithdrefnau'r Cyngor.
- Cynrychioli etholwyr unigol a sefydliadau/cyrff lleol; ymgymryd â gwaith achosion unigol ar eu rhan gan wasanaethu pawb mewn modd teg a chyfartal.
- Cysylltu ag Aelodau Gweithredol, Aelodau eraill o'r Cyngor, Swyddogion y Cyngor a sefydliadau partner i sicrhau bod anghenion y cymunedau lleol yn cael eu hadnabod, eu deall a'u diwallu.
- Hyrwyddo goddefgarwch a chydlyniad yn y cymunedau lleol.
- Ymateb i unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd (yn ôl yr angen) yng nghyfarfodydd y Cyngor.

Gwneud Penderfyniadau, a bwrw golwg ar gyflawniad y Cyngor:

- Cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn, dod i benderfyniadau gwybodus a chytbwys, a bwrw golwg ar gyflawniad y Cyngor.
- Parchu egwyddorion democratiaeth, cyfrifoldeb ar y cyd ynglŷn â dod i benderfyniadau.
- Hyrwyddo trefniadau effeithiol ac effeithlon parthed darparu gwasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill.
- Bod yn effro i'r Polisi Diogelu Corfforaethol a chynorthwyo'r Cyngor i gydymffurfio ag ef.

  Dolen gyswllt i'r Polisi:
  http://inform/en/policiesandprocedures/otherpolicies/corporatesafeguardingpolicy.pdf

EICH SWYDDOGAETH YN AELOD O'R CABINET AR FATERION ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

Yn atebol:

- I'r Cyngor llawn
- I Arweinydd y Cyngor
- I'r Cabinet

Cyfrifoldebau:

- Ar y cyd ag Aelodau eraill o'r Cabinet, bod wrth galon y gwaith o ddydd i ddydd o ran arweinyddiaeth wleidyddol, gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd, trwy'r awdurdod cyfan.
- Ar y cyd ag Aelodau eraill o'r Cabinet, ysgwyddo holl swyddogaethau'r Cyngor nad ydyn nhw'n gyfrifoldeb unrhyw ran arall o'r Cyngor, p'un ai trwy gyfraith neu o dan Gyfansoddiad y Cyngor.

- Ar y cyd ag Aelodau eraill o'r Cabinet, cynnig y canlynol i'r Cyngor yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol bob blwyddyn:-

    - Egwyddorion arweiniol y Cyngor.
    - Polisïau allweddol a strategaethau adnoddau cysylltiedig.

- Gweithredu yn Hyrwyddwr Corfforaethol/Cymuned, fel y bo'n briodol ac yn gymesur â maes eich maes cyfrifoldebau, ynglŷn â phrif themâu datblygu trawsbynciol ym mhob un o wasanaethau a meysydd gweithredu'r Cyngor.
- Derbyn a thrafod adroddiadau, yn gymesur â'ch maes cyfrifoldebau, gan Swyddogion priodol y Cyngor ar faterion arwyddocaol y mae angen eu hystyried, cyn dod i benderfyniadau ynghylch y cyfryw faterion.
- Bod yn bresennol, lle bo hynny'n briodol ac ar gais yr Arweinydd, yn unrhyw Bwyllgorau sefydlog y Cabinet, er mwyn rheoli busnes y Cyngor, ac yn benodol ei adain Weithredol.
- Mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, ac/neu unrhyw Bwyllgor Craffu'r Cyfadrannau, yn ôl y gofyn, i esbonio materion sy'n berthnasol i'ch cylch gwaith, ac yn unol ag Adran 15(a) o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor.
- Mynychu cyfarfodydd â Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion priodol y Pwyllgorau Craffu pan fydd yn briodol trafod materion yn ymwneud â'u gwahanol swyddogaethau.
- Gweithio'n agos gyda phob Uwch Swyddog i fonitro ac i ofalu bod cyflawniad yn eich maes cyfrifoldebau'n gwella'n barhaus, sef:

    - Addysg Uwchradd, Gynradd, Feithrin, Gymraeg, Ddwy Iaith, ac Anghenion Arbennig
    - **Hyrwyddwr Materion Pobl Ifainc**
    - Safonau a Chyrhaeddiad Addysgol
    - Ysgolion yr 21ain Ganrif
    - Cyswllt ag Addysg Bellach ac Uwch
    - Ysgolion a'r Gymuned
    - Dysgu, Mynediad, Ymgysylltu a Chynhwysiant
    - Cymorth i Lywodraethwyr
    - Addysg heblaw yn yr ysgol
    - Addysg i Oedolion

    - Addysg y Blynyddoedd Cynnar, gan gynnwys Dechrau'n Deg
    - Gofal plant

- Cynnal dealltwriaeth drylwyr a chyfoes o'r gwasanaethau rydych chi'n gyfrifol amdanyn nhw, a meithrin dealltwriaeth o'r materion allweddol.
- Yn unol ag Adran 3A (3) o Ran 3 o Gyfansoddiad y Cyngor, dod i benderfyniadau unigol brys o fewn eich maes cyfrifoldebau, er mwyn diogelu buddiannau'r Cyngor, ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog(ion) priodol, a, lle y bo angen, Aelodau eraill o'r Cabinet. (Yr Arweinydd i wneud y penderfyniadau brys o'r fath yn eich absenoldeb).
- Cynrychioli'r Cyngor mewn cylchoedd trafod (fforymau) cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol sy'n berthnasol i'ch maes cyfrifoldebau, lle bo hynny'n briodol, mewn achlysuron ffurfiol a seremonïol.
- Penodi paneli ad-hoc yn gymorth ynglŷn ag agwedd allweddol ar waith datblygu polisïau (ar sail gorchwyl a gorffen), pan fo eisiau hynny.
- Gofyn am gyngor neu sylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a/neu'i Bwyllgorau, neu gyrff/sefydliadau perthnasol eraill mewn perthynas â materion arwyddocaol sy'n ymwneud â'ch maes cyfrifoldebau, cyn dod i benderfyniad, os bydd hynny'n briodol.
- Bod yn ddolen gwybodaeth ac ymateb adnabyddus ynghylch materion neu gwynion sy'n ymwneud â'ch maes cyfrifoldebau.
- Bod yn atebol am eich cyfrifoldebau i'r Cyngor, ac ateb cwestiynau gan Aelodau o'r Cyhoedd yng nghyfarfodydd y Cyngor.
- Bod yn atebol am eich cyfrifoldebau i'r Cyngor, ac ateb cwestiynau gan Aelodau o'r Cyhoedd yng nghyfarfodydd Llywodraeth Agored y Cyngor.
- Cysylltu ag Aelodau eraill o'r Cabinet, a thrafod a rhoi gwybod iddyn nhw, am faterion unigol sy'n debygol o effeithio ar eich maes cyfrifoldebau.
- Bod yn rhan o'r broses ymgynghori ac awdurdodi penderfyniadau dirprwyedig Swyddogion yn unol â'r amodau sydd wedi'u nodi yn Adran 5 o Ran 3 o Gyfansoddiad y Cyngor, ac fel sydd wedi'i ddirprwyo i Swyddogion o dan Adran 15, Deddf Llywodraeth Leol 2000, a allai fod yn agored i'r broses graffu mewn perthynas â'ch maes cyfrifoldebau.
- Bod yn gyfrifol yn gyhoeddus, ar y cyd a chithau'n Aelod o'r Cabinet, ac yn unigol lle bo awdurdod i wneud penderfyniadau wedi'i ddirprwyo i Aelodau unigol, mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n ymwneud ag adnoddau a blaenoriaethau yn y gymuned.
- Ymateb i gwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd yng nghyfarfodydd “llywodraeth agored” y Cyngor, yn unol â rheolau gweithdrefn a gafodd eu mabwysiadu gan y Cyngor ar 18 Ionawr 2006.
- Gwneud datganiadau ynglŷn â materion sy'n effeithio ar y Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd, ar eich maes cyfrifoldebau penodol chi, neu ar unrhyw fater arall y mae angen, yn eich barn chi, dynnu sylw'r cyhoedd ato, yn unol â rheolau gweithdrefn a gafodd eu mabwysiadu gan y Cyngor ar 18 Ionawr 2006.
- Mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol fel y bo'n briodol.

Caiff y cyfrifoldebau uchod eu hadolygu o dro i dro. Efallai bydd Arweinydd y Cyngor yn eu newid ar unrhyw adeg.

EICH SWYDDOGAETH YN HYRWYDDWR MATERION POBL IFAINC

Yn y Cyngor:

- Dealltwriaeth o'r meysydd penodol sy'n cael eu hyrwyddo o ran strategaethau a pholisi, arferion da, gwella ac agendâu cenedlaethol, ac anghenion y grŵp cleientiaid.
- Y gallu i ymgysylltu ag amrywiaeth o aelodau a swyddogion o amgylch y meysydd penodol a gwrando ar y gofynion.
- Y gallu i fod yn eiriolwr ar ran y meysydd penodol yn y Cyngor.

Yn y gymuned

- Dealltwriaeth o anghenion y gymuned mewn perthynas â'r meysydd penodol.
- Y gallu i ymgysylltu â dinasyddion a grwpiau cymunedol ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r meysydd penodol.
- Y gallu i arwain ac i gefnogi mentrau lleol sy'n ymwneud â'r meysydd penodol.
- Y gallu i gynrychioli safle'r Cyngor i'r gymuned mewn perthynas â'r meysydd penodol.

EICH SWYDDOGAETH AR BWYLLGORAU GWEITHREDOL RYDYCH CHI WEDI'CH PENODI IDDYN NHW

- Mynychu cyfarfodydd o'r Cabinet a bod yn gyfarwydd â'i gylch gorchwyl.

Cynrychioli'r Adain Weithredol

- Cynrychioli'r Adain Weithredol ar y canlynol:-
    - Cabinet
    - Cadeirydd Fforwm Cyllideb Ysgolion (Swyddogaeth yr Adain Weithredol)
    - Bwrdd Rhianta Corfforaethol (Swyddogaeth yr Adain Weithredol)
    - Pwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd, Consortiwm Canolbarth y De
    - Is-gadeirydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg (Swyddogaeth yr Adain Weithredol)
    - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Swyddogaeth yr Adain Weithredol)
    - Pwyllgor Strategol – Diwylliant a Chelf (Swyddogaeth yr Adain Weithredol)
    - Grŵp Llywio Cymdeithas Gefeillio Rhondda Cynon Taf
    - Pwyllgor Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion

Cynrychioli'r Cyngor

- Cynrychioli'r Cyngor ar y Cyrff Allanol, rydych chi wedi'ch penodi iddyn nhw:
    - Cyd-bwyllgor Addysg Cymru

- Bwrdd Llywodraethwyr – Coleg y Cymoedd
- Ymddiriedolaeth Judges Hall

<u>Nodwch</u>: Dyw cynrychioli'r Cyngor ar gorff allanol ddim, o reidrwydd, yn golygu y byddwch chi'n cynrychioli buddiannau'r Cyngor yn y corff/sefydliad dan sylw. Bydd disgwyl ichi weithredu er budd y sefydliad/corff allanol, ac arfer barn annibynnol wrth ddod i benderfyniadau, yn unol â'ch dyletswydd o ofal ar y corff/sefydliad dan sylw.

- Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff partneriaeth lleol (o'ch penodi iddyn nhw), gan hyrwyddo buddiannau a lles cyffredin y naill ochr a'r llall, a hybu cydweithredu.
- Cynrychioli a bod yn eiriolydd dros y Cyngor ar gyrff cenedlaethol ac mewn achlysuron cenedlaethol (o'ch penodi).

<u>EICH SWYDDOGAETH YN GADEIRYDD PWYLLGOR PENODI LLYWODRAETHWYR YR AWDURDOD ADDYSG LLEOL</u>

Yn atebol:

- I'r Cyngor llawn

Cyfrifoldebau:

- Cadeirio cyfarfodydd Pwyllgor Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol
- Cyflawni swyddogaethau'r Awdurdod Addysg Lleol o ran penodi/diswyddo unrhyw lywodraethwr parhaol neu lywodraethwr dros dro.

<u>DATBLYGU CYNGHORWYR (AELODAU)</u>

- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor, a chynnal y safonau gorau posibl o ran ymddygiad a moeseg yn y ffordd byddwch chi'n ymgymryd â'ch dyletswyddau.
- Ymgymryd â hyfforddiant mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl ac anghenion hyfforddiant ychwanegol, e.e. mewn perthynas â'ch swyddogaeth briodol a fydd yn cael sylw yn rhan o'ch Cynllun Datblygiad Personol parhaus.
- Manteisio ar gyfleoedd datblygu er mwyn gwella'ch dealltwriaeth o'ch swyddogaeth ar Bwyllgorau/Cyrff Allanol ac ati, byddwch chi wedi'ch penodi iddyn nhw.
- Manteisio ar gyfleoedd datblygu ar gyfer Aelodau/Cynghorwyr.

<u>GWERTHOEDD</u>

- Ymrwymo wrth werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn Swydd gyhoeddus:

    - Bod yn agored a thryloyw

- Bod yn onest a dilwgr
- Bod yn oddefgar a pharchus
- Bod yn anwahaniaethol a theg
- Derbyn gwahaniaeth mewn diwylliant
- Cynaliadwyedd
- Arweinyddiaeth gynhwysol

Llofnod ..... J. Rosser .....
Enw ..... Joy Rosser .....
Dyddiad ....28 Ionawr 2020.....